Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Arolygiad gwerthuso perfformiad

# Cyngor Sir Ceredigion






**Fersiwn hawdd ei ddarllen**

Edrychodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ba mor dda y mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhedeg ei wasanaethau cymdeithasol.




Gwnaethon ni hyn ym mis Mawrth 2023.




Gwnaethom ni edrych ar ba mor dda y mae'r awdurdod lleol yn gweithio yn eu dyletswyddau gwasanaeth cymdeithasol nhw.



Gwnaethon ni edrych ar:

- **Pobl - llais a rheoli**
- **Atal**
- **Lles**
- **Partneriaethau**




Mae gan y cyngor gynllun pum mlynedd i wneud gwasanaethau'n well.




Enw'r cynllun yw'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes.



Bydd y cyngor yn gweithio gyda phobl i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael cymorth ar yr adeg iawn. Bydd cael cymorth mor gynnar â phosibl yn gwneud eu bywydau nhw'n well.




Mae tair rhan i'r cynllun, mae'r rhain yn cael eu galw'n:



**Porth Cymorth Cynnar** - helpu pobl yn gynnar a'u hatal nhw rhag angen mwy o gefnogaeth.




**Porth Gofal** – asesu anghenion pobl a diogelu nhw.




**Porth Cynnal** – gofal a chymorth sydd wedi'i gynllunio.



Mae'r cynllun yn gweithio gydag oedolion a phlant a gyda'r teulu cyfan.

Mae pob cyngor yng Nghymru wedi ei chael hi'n anodd i ddarparu gwasanaethau. Mae hyn oherwydd bod:





- Mwy o bobl sydd angen gwasanaethau.
- Angen gwasanaethau mwy cymhleth ar bobl.
- Costau byw yn uchel i bawb.



Mae'r cyngor wedi cael trafferth dod o hyd i staff a chadw staff.

Mae hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol.



Mae hyn yn gallu bod yn broblem os:

- nad ydy staff newydd neu staff asiantaeth yn gwybod y gwasanaeth yn dda
- nad oes digon o bobl ar gael i ddarparu'r gwasanaeth.



Mae hon yn broblem i gynghorau ar draws Cymru.




Mae'r cyngor wedi sefydlu tîm newydd o weithwyr cymdeithasol a rheolwyr i wneud yn siŵr bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod oedolion yn cael gwasanaeth da.



Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth da. Maen nhw'n cael gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain ac yn cael eu cefnogi i ddweud eu dweud.



Mae'r bobl sy'n gyfrifol am ofal cymdeithasol yn gefnogol ac mae'n hawdd siarad â nhw.



Mae'r arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gweithio ar lesiant, gweithio'n dda gyda'i gilydd a sicrhau canlyniadau diogel i bobl.



Mae'r cyngor wedi cael hyfforddiant Arwyddion Diogelwch. Mae hyn yn golygu bod pawb yn gweithio yn yr un ffordd.

# Y hyn y gwnaethon ni ei weld.

# Llais a Dewis i Bobl

### Beth mae'r cyngor yn ei wneud yn dda



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu dweud eu dweud.



Gwnaethon ni glywed am staff da sy'n gweithio gyda phobl i gefnogi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.



Dywedodd y rhan fwyaf o bobl y gwnaethon ni siarad â nhw eu bod nhw'n cael eu trin gydag urddas a pharch.




Gall pobl ddefnyddio eu hiaith eu hunain. Mae digon o staff i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg.



Mae gwasanaethau plant yn cynnig eiriolaeth ac mae eiriolwyr yn mynd i gyfarfodydd i rannu barn y plentyn.



Roedd rhai plant yn ei chael hi'n anoddach cael gwasanaethau a chael eu cefnogi i wneud penderfyniadau mawr.




Nid oedd rhai plant yn ei chael hi'n hawdd gwybod beth yw eu hawliau.



Roedd gan rai oedolion eiriolwyr anffurfiol.



Roedd staff yn deall pa mor bwysig yw eiriolaeth.




Gall pobl ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Mae hyn yn eu helpu nhw i gynllunio eu gwasanaethau a'u cefnogaeth eu hunain.




Mae'n anodd dod o hyd i ddigon o gynorthwywyr personol.




Mae yna wefan newydd i helpu dod o hyd i fwy o gynorthwywyr personol i gefnogi taliadau uniongyrchol.




Mae gan Geredigion weithlu ffyddlon ond mae ganddyn nhw fwy o bobl sydd angen mwy o gefnogaeth nawr.



Mae'r rhan fwyaf o staff yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr.



Mae'r cyngor yn gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth i hyfforddi a recriwtio gweithwyr cymdeithasol newydd.



Mae'r cyngor yn ystyried dod o hyd i staff newydd o dramor.
Byddai angen i staff newydd ddysgu Cymraeg a bod yn rhan o'r gymuned.




Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rôl bwysig. Mae angen i'r cyngor ddod o hyd i berson hirdymor i fod yn gyfarwyddwr.



Dywedodd rhai gofalwyr fod gweithwyr cymdeithasol yn dda am wrando arnyn nhw.



Roedd rhai plant yn hapus iawn gyda'r gweithwyr cymdeithasol.
Dywedodd plentyn "eu bod nhw'n ddoniol ac maen nhw bob amser yn siarad gyda ni".

## Y pethau sydd angen eu gwella



Mae'n anodd gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol os ydyn nhw'n newid drwy'r amser.



Nid oedd pawb yn teimlo eu bod nhw'n cael eu clywed.
Nid oedd pob oedolyn yn cael eu clywed.



**Mae'n rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle i gael eu clywed.**



Dylai gofalwyr gael asesiad.




Mae angen i'r cyngor a'r staff wneud yn siŵr bod gofalwyr yn gwybod y gallan nhw gael asesiad.







Mae bod yn ofalwr yn gallu effeithio ar eich

- Iechyd
- Arian
- Emosiynau

Mae angen i'r cyngor feddwl am hyn pan fydd e'n gwneud cynlluniau.




**Mae gan y cyngor ddyletswydd i ofalwyr. Mae'n rhaid iddo feddwl am eu lles nhw. Mae hyn yn golygu sicrhau bod asesiad yn cael ei gynnig iddyn nhw.**




**Os nad yw gofalwr eisiau asesiad, dylai'r cyngor ysgrifennu pam.**



Does dim digon o leoedd egwyl fach a gofal seibiant yng Ngheredigion.



**Mae'n rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod mwy o leoedd egwyl fach a gofal seibiant ar gael.**




Bob blwyddyn mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu adroddiad i ddweud pa mor dda y mae eu gwasanaethau nhw wedi helpu pobl.



Nid yw Ceredigion wedi bod yn dda am ysgrifennu'r adroddiad mewn pryd.




**Mae'n rhaid cyhoeddi adroddiad y Cyfarwyddwr ar amser bob blwyddyn.**



Mae problemau mawr wedi bod wrth ddod o hyd i ddigon o weithwyr cymdeithasol a therapyddion.



Mae'r cyngor wedi gweithio'n galed i wneud hyn yn well. Mae'n bosib y bydd problemau'n parhau yn y dyfodol.




**Mae'n rhaid i'r cyngor wneud cynllun i sicrhau y gall ddod o hyd i ddigon o staff a'u cadw nhw yn y dyfodol.**



Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cael goruchwyliaeth reolaidd gyda'u rheolwyr.



Doedd y ffeiliau goruchwyliaeth ddim i gyd yn dda ac mae angen gwella nhw.



**Mae'n rhaid i'r cyngor gael cynllun da ar gyfer goruchwyliaeth sy'n helpu'r staff i gefnogi pobl yn well.**



Mae rhywfaint o hyfforddiant staff yn dda.


Mae angen rhywfaint o hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff.



**Mae'n rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod staff yn cael eu hyfforddi'n dda fel eu bod nhw'n dda yn eu swyddi.**



Mae'r staff yn cefnogi ei gilydd orau pan fyddan nhw'n gallu cwrdd â'i gilydd.



**Dylai'r cyngor feddwl am fwy o leoedd i staff gwrdd â'i gilydd.**



Mae angen system dda ar y cyngor i wirio pa mor dda y mae'n darparu gwasanaethau.




Gwnaethon ni ddweud hyn wrthyn nhw yn 2021. Mae angen iddyn nhw wneud hynny o hyd.



Mae fframwaith ansawdd drafft. Bydd system newydd i gadw cofnodion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y cyngor yn gallu gweld pa mor dda y mae'n ei wneud.




**Mae'n rhaid i'r cyngor gael cynllun da i wirio ansawdd yr hyn y mae'n ei wneud.**



Dydy'r cyngor ddim yn ymateb i gwynion mor gyflym ag y dylai.




**Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i gwynion mewn da bryd. Mae'n rhaid iddyn nhw ddysgu o gwynion i wneud gwasanaethau'n well.**

# Atal

## Beth mae'r cyngor yn ei wneud yn dda



Mae cefnogi pobl yn gynnar yn helpu pobl i gael bywydau gwell a mwy diogel.




Mae gan Geredigion gynllun i gefnogi pobl yn gynnar.

Maen nhw'n cefnogi annibyniaeth pobl ac yn ceisio cadw teuluoedd gyda'i gilydd.



Mae'r cyngor yn dda am ysgrifennu asesiadau a threfnu cyfarfodydd i blant.



Mae'r asesiadau'n cael eu hysgrifennu ar gyfer y plentyn ac yn sôn am yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn.



Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda phlant.

Gwnaethon ni weld weithwyr cymdeithasol yn:

- Chwarae gemau
- Lliwio
- Chwarae pêl-droed.




Mae llawer o wasanaethau ataliol yng Ngheredigion.

Mae'r cyngor yn gweithio'n dda gyda phobl eraill i ddarparu gwasanaethau.



Mae gweithio gyda'r gymuned yn dda ar gyfer lles.

Mae'r cyngor wedi gwneud cysylltiadau da gyda gweithgareddau cymunedol.



Gall technoleg helpu pobl i fod yn annibynnol.



Mae'r cygor yn defnyddio oriorau i wirio pwysedd gwaed a Fitbits i gefnogi pobl ifanc i fod yn egnïol.



Mae'n anodd dod o hyd i ddigon o staff gofal.

Mae hyn yn gallu gwneud hi'n anoddach i bobl ddychwelyd adref o'r ysbyty.



Mae'r cyngor wedi bod yn dda am sicrhau bod pobl yn cael eu hannibyniaeth yn ôl pan fydd hyn yn bosibl.

## Y pethau sydd angen eu gwella



Nid yw pawb yn ei chael hi'n hawdd cysylltu â'r Cyngor.




Mae adolygiadau o gynlluniau gofal yn cael eu gohirio.
Mae rhestrau aros.



Dydy pawb ddim yn cael eu gofyn fynd i gyfarfodydd adolygu.



Mae hyn yn gallu golygu bod unrhyw newidiadau i anghenion cymorth yn cael eu colli a bod pobl ddim yn cael eu cefnogi'n iawn.



**Mae'n rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod pob adolygiad yn cael ei wneud mewn da bryd.**
**Mae'n rhaid iddo wneud yn siŵr bod pawb yn cael eu gwahodd.**



Mae'n anodd i lawer o ardaloedd ddod o hyd i ddigon o staff gofal.
Mae'n anodd yng Ngheredigion oherwydd ei bod yn fwy gwledig.



Mae hyn yn golygu:

- Ei fod yn fwy anodd i ofalwyr.
- Bod pobl yn mynd i gartrefi gofal pan allen nhw fod yn annibynnol.
- Bod gwasanaethau eraill o dan fwy o bwysau.



Does dim digon o wasanaethau i bobl sy'n fyddar neu'n ddall.



**Mae angen i'r cyngor weithio gyda phobl fyddar a dall i wneud gwasanaeth gwell ar eu cyfer nhw.**



Mae mwy o bobl sydd angen gwasanaethau.
Ar y cyfan mae'r cyngor yn dda am gwrdd ag anghenion pobl newydd.




**Mae gan rai plant fwy nag un atgyfeiriad. Mae angen i'r cyngor wybod os yw achosion yn cael eu cau yn rhy gynnar.**



Mae mwy o blant mewn gofal. Does dim digon o waith yn cael ei wneud i ddychwelyd y plentyn i'w gartref pan fydd pethau'n iawn eto.



**Mae angen i'r cyngor wneud yn siŵr bod plant yn gallu gadael gofal pan fydd hynny'n bosib.**



Does dim digon o gartrefi gofal a lleoedd maeth i blant yng Ngheredigion.



**Mae angen i'r cyngor wneud yn siŵr eu bod nhw'n dod o hyd i fwy o leoedd maeth.**



Mae rhai grwpiau yn y trydydd sector yn meddwl y gallai'r cyngor weithio gyda nhw'n well.



**Dylai'r cyngor weithio i ddarganfod pa grwpiau sy'n bodoli yng Ngheredigion. Bydd hyn yn helpu'r cyngor i weithio'n well gyda nhw.**




Nid oes gan lawer o blant mewn gofal gynlluniau cefnogi.



**Mae'n rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod cynlluniau'n cael eu hysgrifennu a'u diweddaru.**

# Lles

## Beth mae'r cyngor yn ei wneud yn dda



Mae'r cyngor yn rhoi diogelwch plant yn gyntaf.

Mae'r staff yn deall y plant a'r teuluoedd yn dda.

Mae'r staff yn weithwyr medrus a da.



Mae plant yn cael eu gweld pan fydd angen iddyn nhw gael eu gweld.

Mae'r cyngor yn cefnogi teuluoedd i ddod i gyfarfodydd.

Mae'r adroddiadau'n dangos cryfderau teuluoedd yn ogystal â risgiau.



Mae cynadleddau grwpiau teuluol yn helpu i gynllunio cefnogaeth i blant. Mae hyn yn helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd pan mai dyna'r peth gorau i bawb.



Nawr mae yna gynadleddau grŵp teuluol ar gyfer rhai oedolion.



Mae'r staff yn dda am wneud penderfyniadau ac ysgrifennu adroddiadau am yr hyn y maen nhw wedi'i benderfynu.


Maen nhw'n meddwl beth mae plant ei eisiau.

Mae'r asesiadau risg yn dda. Mae hyn yn helpu staff i weithio'n well gyda phlant.

**Y pethau sydd angen eu gwella**




Mae angen i'r cyngor gadw cofnodion gwell. Mae'n rhaid iddo ddangos sut mae wedi cynnwys pobl yn eu cynlluniau diogelu nhw.



Dywedodd grwpiau sy'n gweithio gyda'r cyngor wrthyn ni nad ydyn nhw'n clywed yn ôl gan y cyngor pan fyddan nhw'n codi eu llais i gadw pobl yn ddiogel.



Mae llawer o bobl yn mynd i gyfarfodydd, ond dydy'r cofnodion ddim bob amser yn cael eu hanfon mewn da bryd.




**Dylai'r cyngor wneud yn siŵr bod unrhyw un sy'n codi eu llais i gadw rhywun yn ddiogel yn gwybod beth sy'n digwydd. Dylen nhw anfon cofnodion mewn da bryd.**



Does dim digon o staff bob amser i wneud ymweliadau gyda'r heddlu ac i gynnal asesiadau galluedd meddyliol.




**Mae'n rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr ei fod yn rheoli diogelu yn dda.**



Dydy'r holl bobl iawn ddim yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd am blant.



Mae'n rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod pawb yn mynd i gyfarfodydd diogelu plant, gan gynnwys:

- Addysg
- Gweithwyr cymdeithasol
- Iechyd




Gwnaethon ni edrych yn 2021 ar sut mae'r cyngor yn gwneud asesiadau oedolion a chynlluniau gofal.



Doedd y cynlluniau ddim bob amser yn ddigon da.

Dydy hynny ddim wedi newid.



**Mae'n rhaid i'r cyngor edrych ar sut mae'n ysgrifennu am asesiadau a chynlluniau gofal. Mae angen iddyn nhw fod yn gofnod o beth sy'n bwysig i'r person.**




**Mae'n rhaid i'r cyngor edrych ar sut mae'n gwirio adroddiadau ac adolygiadau. Mae angen iddo wneud yn siŵr bod cofnodion yn cael eu cadw'n well.**

# Partneriaethau ac integreiddio

### Beth mae'r cyngor yn ei wneud yn dda



Mae'r cyngor yn dda wrth weithio gyda grwpiau eraill.




Mae gwahanol adrannau o'r cyngor yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.



Mae uwch reolwyr yn dda am weithio gyda phobl eraill i wneud yn siŵr bod pethau'n cael eu gwneud.




Mae'r cyngor yn gweithio'n dda gyda'r bwrdd iechyd.



Mae gweithio gyda'n gilydd yn helpu pawb.
Gwnaethon ni weld sut mae hyn wedi helpu i ddod o hyd i gartrefi gofal newydd ar gyfer plant yng Ngheredigion.





Mae gweithwyr proffesiynol a thimau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.



Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael cymorth ar gyfer eu holl anghenion.
Mae'n gallu golygu ei fod yn haws i rywun ddod adref o'r ysbyty.



Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn mynd i gyfarfodydd i benderfynu sut mae rhywun yn cael ei gefnogi.
Mae hyn yn helpu i wneud penderfyniadau pwysig.




Mae adroddiadau'n cael eu rhannu ond dydy hyn ddim bob amser yn digwydd mewn da bryd.



Mae'r cyngor yn gweithio'n dda gydag ysgolion. Gall plant mewn gofal gael cefnogaeth gyda'u hiechyd emosiynol nhw.



Dywedodd staff gwaith cymdeithasol wrthyn ni fod partneriaid yn gweithio'n dda gyda nhw. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi teuluoedd a chadw plant yn ddiogel yn eu teulu nhw.



Mae grwpiau sy'n darparu gwasanaethau yn gweithio'n dda gyda'r cyngor. Gwnaethon nhw ddweud fod tendro'n gallu bod yn anodd.
Tendro yw pan fydd darparwyr yn ceisio ennill contractau a gwaith gan y cyngor.



Mae'r cyngor yn helpu darparwyr gyda gweithdai a chymorth arall.


**Y pethau sydd angen eu gwella**



Mae angen iddyn nhw wneud yn siŵr bod anghenion yr unigolyn yn bwysicach na pha wasanaethau sydd ar gael.



Mae timau a phartneriaid y cyngor yn deall y cynllun newydd ar gyfer gofal cymdeithasol.
Nid yw rhai o'r cyhoedd yn gwybod beth mae'n ei olygu na sut y bydd y cynllun newydd yn gweithio.




**Mae angen i'r cyngor edrych ar sut mae'n rhannu gwybodaeth am wasanaethau gyda phawb.**



**Mae angen i'r cyngor wneud yn siŵr bod darparwyr yn awr yn gweithio o dan y cynllun newydd.**

# Beth sy'n digwydd nesaf




Mae angen i'r cyngor edrych ar yr adroddiad hwn.




Mae angen iddyn nhw wneud y newidiadau rydyn ni wedi sôn amdanyn nhw.


Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Byddwn ni'n gwirio eu bod nhw wedi gwneud y newidiadau a bod y gwasanaethau'n gwella.



Dylai'r cyngor rannu'r gwaith da rydyn ni wedi dweud amdano fe. Bydd hyn yn helpu pob cyngor i fod yn well am gefnogi pobl.

# Yr hyn a wnaethon ni i ysgrifennu'r adroddiad hwn




Gwnaethon ni edrych ar 32 o gofnodion gofal cymdeithasol.



Gwnaethon ni edrych ar 10 cofnod yn fwy manwl.

Roedd hyn yn golygu:

- Siarad â'r person
- Eu teulu a'u gofalwyr
- Gweithwyr allweddol
- Gweithwyr proffesiynol eraill



Gwnaethon ni siarad â:

- Staff y Cyngor
- Partneriaid a darparwyr
- Plant ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau.

Gwnaethon ni gwrdd â 114 o bobl.



Gwnaethon ni edrych ar:

- Ffeiliau staff
- Canmoliaeth a chwynion
- Dogfennau y gwnaethon ni ofyn amdanyn nhw.
- Arolygon o staff a phobl eraill.

# Iaith Gymraeg

Rydyn ni'n credu y dylai pobl allu gweithio gyda ni yn Gymraeg neu Saesneg heb orfod aros.

Roedden ni'n gallu gwneud hyn wrth i ni edrych ar wasanaethau Ceredigion.

# Diolch yn fawr




Hoffen ni ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl sydd wedi ein helpu ni i ysgrifennu'r adroddiad hwn.

ISBN: 978-1-83504-277-9